EISTEDDFOD 2025

# 160. UNAWD CERDD DANT O DAN 12 OED

## BREUDDWYD

Fe garwn fynd i'r gofod
Ynghanol duwch nos,
A hwylio drwy'r cymylau
Ar big y lleuad dlos;
Cawn brofi'r rhyfeddodau i gyd
Cyn llamu'r sêr yn ôl i'r byd.

Fe garwn deithio'r pellter
Ar draws canrifoedd fu,
I gwrdd â diplodocws
A'r creaduriaid lu
Fu'n troedio'r tir mewn oes o swyn,
Cyn dychwel adre' i Gymru fwyn.

Fe garwn fynd ar amrant
I Fro Afallon gu,
I lys y Brenin Arthur
A'i ddewr farchogion lu.
Cawn wylio Myrddin ddoeth a'i hud
Cyn troi yn ôl o'r hen, hen fyd.

A hoffet ti ddod hefyd
I fyd fy mreuddwyd i?
Mi fyddai'n braf cael cwmni
I rannu'r daith a'r sbri.
Ond tyrd, rhaid inni gychwyn nawr,
Mae'r oriau'n brin cyn tyfu'n fawr!

ANN TEGWEN HUGHES